**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brosiect y Deyrnas Gyfunol: Undeb sy'n Newid**

Cofnodion: Cyfarfod 16 Gorffennaf 2014, 8.30-9.30am, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel

Aelodau: David Melding AC (Cadeirydd), Mike Hedges AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Simon Thomas AC, yr Athro Richard Wyn Jones (Cyfarwyddwr, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd), Lleu Williams (Cydgysylltydd Prosiect y Deyrnas Gyfunol: Undeb sy'n Newid, Ysgrifennydd y Grŵp).

Yn bresennol: David Melding AC (Cadeirydd), Mike Hedges AC, Lleu Williams (Ysgrifennydd), Julie Morgan AC

Ymddiheuriadau: Rhodri Glyn Thomas AC, Simon Thomas AC, yr Athro Richard Wyn Jones

Gwahoddedigion allanol: Mae rhestr lawn o'r gwahoddedigion allanol a oedd yn bresennol i'w gweld ar ddiwedd y cofnodion.

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r gwahoddedigion allanol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Brosiect y Deyrnas Gyfunol: Undeb sy'n Newid, gan nodi mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf cyn y refferendwm. Nododd y Cadeirydd y bydd y grŵp yn asesu canlyniad y refferendwm ar ôl 18 Medi, ond y bydd sesiwn heddiw yn edrych ar effeithiau posibl y refferendwm ar Gymru.

2. Panel gwadd: Adam Price, Lee Waters a Valerie Livingston

Croesawodd y Cadeirydd banel gwadd y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer y cyfarfod (a enwir uchod) i drafod y pwnc "beth fydd effaith refferendwm yr Alban ar Gymru".

Cododd Valerie Livingston bryderon ynghylch tincera cyfansoddiadol yng Nghymru a theimlai fod pobl yn osgoi'r cwestiynau mawr sy'n wynebu Cymru.

Nododd Lee Waters er bod y polau'n nodi ei bod yn debygol o fod yn bleidlais YN ERBYN yn yr Alban, fod pleidlais O BLAID yn dal i fod yn gredadwy. Nododd Lee hefyd nad ydym yn gwybod beth fydd effaith y refferendwm ar Gymru.

Dywedodd Adam Price nad oedd dosbarth gwleidyddol Prydain wedi deffro i'r posibilrwydd o bleidlais O BLAID yn yr Alban eto. Galwodd Adam hefyd ar i gynlluniau wrth gefn gael eu rhoi ar waith os bydd yr Alban yn pleidleisio dros annibyniaeth.

Yna cymerodd y cadeirydd gwestiynau i'r panel gan y gynulleidfa wadd. Roedd y pynciau a godwyd yn cynnwys refferendwm yr UE, cymhelliant yr ymgyrchwyr yn yr ymgyrchoedd O BLAID ac YN ERBYN yn yr Alban, cyflymu datganoli yng Nghymru a beth fyddai canlyniad pleidlais gul O BLAID yn y refferendwm.

3. Cloi’r cyfarfod

Diolchodd y Cadeirydd i’r panel am eu cyfraniadau. Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: I’w gadarnhau

Rhestr o’r gwahoddedigion allanol a oedd yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Richard Bettley | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Craig Lawton | Swyddfa Suzy Davies AC |
| Julie Morgan AC | |
| Steven Morris | The Guardian |
| Brenig Davies | |
| Mark Hinge | The Bay Public Affairs |
| Carys Evans | Llywodraeth Cymru |
| Hugh Rawlings | Llywodraeth Cymru |
| Peter Edwards | |
| Dafydd Cadog | |
| Nick Wal | Swyddfa Mick Antoniw AC |
| Tomos Davies | Swyddfa David Melding AC |
| Mike Hedges AC | |
| Adam Jones | |
| Syd Morgan | Prifysgol Abertawe |
| Rachel Cable | Addysg Uwch Cymru |
| Rhys Clayton | |
| Gareth Price | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Anna Daniel | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Elin Hughes | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |